

CYNGOR CYMUNED MAWDDWY

Cofnodion o gyfarfod o'r Cyngor a gynhaliwyd Nos Fercher y 26ain o Fehefin 2019 am 7.30 o'r gloch yn Neuadd Dinas Mawddwy.

Presennol; Cynghorwyr Iwan Foulkes , Berwyn Hughes, Arfon Hughes, Idris Jones, Berwyn Harding, Hedd Pugh, Catrin Jones, John P Roberts (Cyngor Gwynedd) a Huw T Jones (Clerc)

Ni chafwyd ymddiheuriadau i law.

Danfonwyd ein cofion cynhesaf at Wyn Tynbraich a Rhian (partner y Cyng. John P Roberts) gan nad oeddynt yn mwynhau yr iechyd gorau, a dymunwyd gwellhad buan i'r ddau.

1. Cofnodion y cyfarfod diwethaf:

Cadarnhawyd cofnodion y Cyfarfod Blynyddol o'r 22ain o Fai fel rhai cywir ar gynnig Idris Jones a'i eilio gan Hedd Pugh.

Diolchodd y Clerc yn fawr iawn i'r Cyng. Arfon Hughes am wneud cofnodion y Cyfarfod Blynyddol yn ei absenoldeb oherwydd salwch.

2. Materion yn codi .

- a) **Ymgynghoriad ar ddyfodol y Rheithody a'r gerddi yn Mallwyd** – yn dilyn trafodaeth faith, gwelwyd mai mater i'r Eglwys oedd arwain yr ymgynghoriad, gan mai nhw sydd ym mherchnogaeth yr eiddo. Byddem ni fel Cyngor Cymuned yn medru cynorthwyo, a gwelwyd y dylid gofyn yn swyddogol am y ffordd ymlaen. Roedd angen gwybod yn glir beth oedd disgwyliadau yr Eglwys. Roedd hefyd angen eu hatgoffa am yr angen am gael llwybr drwy dir y Rheithordy at y fynwent.
- b) **Elusen Dol y Plwyf** – nid oedd unrhyw wybodaeth pellach i law. Roedd Huw wedi danfon gair o ddiolch i'r Parch Miriam Beecroft a Mr Sion Rhys Evans a ddaeth atom y tro diwethaf.
- c) **Dwy sedd wag ar y Cyngor** – adroddod y Clerc fod y rhybudd wedi ei osod ar hysbysfyRDDau Mallwyd, Dinas Mawddwy a Llanymawddwy ers y 3ydd o Fehefin - ac reodd dyddiad cau o'r 21ain o Fehefin. Roedd e bost gan Gyngor Gwynedd yn cadarnhau nad oedd unrhyw enwau i law, ac felly roedd ail-hysbyseb wedi ei gosod yn nodi y bwriad i gyfethol, ac yn gwahodd enwebiadau. Byddai rhain eto ar hysbysfyRDDau Mallwyd, Dinas Mawddwy a Llanymawddwy hyd at yr 17eg o Orffennaf.
- d) Gan gyfeirio at lythyr ymddiswyddiad Elwyn Jones, cafwyd datganiad gan y Clerc yn adrodd am ei sefyllfa anodd dros y misoedd diwethaf, a chadarnhad ganddo ei fod wedi bod yn gweithredu drwy ddilyn canllawiau a chyngor a gafodd, bod yn dryloyw a di-duedd, ac nad oedd ef wedi gwneud cwyn yn erbyn neb ar unrhyw adeg. Teimlai y dylai unrhyw gais am arweiniad ar reolau i'r dyfodol ddod o'r Clerc yn unig, ac mai dim ond teg oedd cael 7 diwrnod i wneud cofnodion ar ol unrhyw gyfarfod. Roedd yn awyddus i wneud yn glir y dylai pob dim gael ei godi yng nghyfarfod y Cyngor, ac nid gyda'r Clerc yn ddiweddarach. Dywedodd na allai'r Clerc wneud penderfyniadau ei hun, ond yn hytrach gyda 'mandate' o gyfafod o'r Cyngor Cymuned. Ni allai fod wedi gwneud dimyn wahanol drosy cyfnod anodd diweddar, a diolchodd i bawb – yn wir mwyafrif o'r cynghorwyr – am ddanfon neges cadarnhaol fod y gwaith wedi ei wneud yn gywir.

Cododd Cyng. Arfon Hughes mater llythyr Cyng. Catrin Jones unwaith eto, a'i deimlad fod y mater yn parhau heb ei ddatrys. Pwysleisiodd y Clerc bwysigrwydd mynegiant diddordeb, a dywedodd na ddylai hyn gael ei drafod, ac atgoffodd bawb fod hyn wedi ei drafod mewn cyfarfod arbennig caeedig ar yr 22ain o Fawrth, lle roedd aelodau cwmni Nod Glas wedi dangos diddordeb yn dilyn cyngor gan Un Llais Cymru ac Uwch Gyfreithiwr Cyngor Gwynedd Sion Huws. Cyfeiriwyd hefyd at gofnodion y cyfarfod hwnnw a oedd wedi eu dosbarthu i bawb o Gyngor Cymuned Mawddwy, a'r penderfyniad a wnaethpwyd. Wedi hyn, cafwyd cynnig gan Cyng Arfon Hughes y dylai'r mater fod yn destun ymchwiliad. Yn dilyn rhybudd pellach gan y Clerc na ddylem drafod y mater, penderfynodd y Cadeirydd ar ei ddisgresiwn ei hun i roi'r mater i bleidlais. Cafodd cynnig Arfon ei eilio gan Cyng. Berwyn Hughes. Cafwyd cynnig arall gan Cyng. Hedd Pugh y dylem symud ymlaen heb unrhyw drafodaeth bellach, a chafodd hyn ei eilio gan Berwyn Harding. Mewn pleidlais, dangoswyd fod 2 bleidlais o blaid cael ymchwiliad, a 4 pleidlais o blaid symud ymlaen, ac yna aethpwyd ymlaen a gweddill y cyfarfod.

- e) **Perchnogaeth sribyn o dir rhwng yr Eglwys a'r briffordd A470 yn Mallwyd**, - cadanhaodd y clerch fod gohebiaeth gyda'r Eglwys yng Nghymru yn cadarnhau hyn. Addawodd y Clerc ddanfôn gohebiaeth am hyn i'r Cynghorwyr. Nodwyd hefyd mai cyfrifoldeb yr eglwys yw'r grisiau a'r llwybr i eglwys Mallwyd.
- f) **Coed ar Dolybont** – roedd angen atgoffa Cyngor Gwynedd mai eu cyfrifoldeb hwy oedd hyn, a bod peryglon y gallai rhywun frifo gyda'r canghennau sy'n disgyn. Nododd y Clerc na ddylem fel Cyngor Cymuned ystyried gwneud unrhyw waith ein hunain fel cynghorwyr – fel ag yr oedd wedi ei drafod yn yr achos yma.
- g) **Roedd tyllau yn parhau ar Lawnt y Plas**, adroddodd y Clerc am ymateb llawn gan Cartrefi Cymunedol Gwynedd yn rhoi eglurhad drwy gyfrwng map manwl yn dangos perchnogaeth tiroedd Lawnt y Plas. Dosbarthwyd yr ohebiaeth i'r Cynghorwyr. Hefyd roedd cadarnhad y byddai'r gawith o lenwi'r tyllau yn cael ei wneud yn fuan.
- h) **Coed ac iddew yn tyfu ym mynwent Mallwyd**, gan gynnwys oddiamgylch rhai o'r cerrig beddi – adroddodd y Clerc ei fod ef a'r Cadeirydd Iwan Foulkes wedi cyfarfod gyda Tegid Humphreys, a'i fod wedi cytuno i wneud y gwaith am gyfanswm o £350. Cytunwyd yn unfrydol i hyn. Hefyd nodwyd fod sicrwydd o yswiriant i law gan Tegid ar gyfer y gwaith yma. Nodwyd hefyd fod sicrwydd o yswiriant i law gan Hefin Davies ar gyfer y gwaith ym mynwent Dinas Mawddwy.
- i) **Ffens derfyn rhwng mynwent Llanymawddwy a thir ochr ucha'r fynwent**, roedd trafodaeth wedi bod gyda Dafydd Brynsion, ac addawodd Cyng Hedd Pugh gael gair gydag ef eto.
- j) **Dwr yn dod i lawr o'r goedwig ac heibio tai Godre'r Coed** – adroddwyd gynnwys e-bost diweddaraf Grace Sanderson o Cyfoeth Naturiol Cymru. Roedd hi yn disgwyl ymayeb gan Dwr Cymru. Gwelwyd y dylai Cynghorwyr dynnu lluniau o'r sefyllfa maes o law.
- k) Nid oedd ymateb pellach gan Merfyn Wyn Morris o **Adran Cefnffyrdd Gogledd a Chanolbarth Cymru** ynglyn a'r materion a ddanfônwyd atynt. Roedd pryder arbennig am y ceblau o hen sustem teledu y Dinas, a'r perygl i ddefnyddwyr y ffordd. Byddai'r Clerc yn cysylltu mor fuan a phosib.
- l) **Meddygfa Glantwymyn** – adroddwyd am y datblygiadau ers y Cyngor diwethaf, sef bod yr adeilad bellach ar werth. Mynegwyd teimladau cryf iawn fod yr hyn sydd wedi digwydd yn sarhad ar yr ardal, a bod angen llawer gwell trefn ym meddygfa Machynlleth. Roedd siom fawr am beth sydd wedi digwydd, yn arbennig o gofio eu bod wedi gaddo gwasanaeth o'r radd flaenaf yn ystod yr ymgynghoriad. Roedd gofal iechyd sylfaenol mor sylfaenol bwysig i'r ardal.

Gwelwyd y dylai'r Clerc ddanfôn eto at y Bwrdd Iechyd, a chopio y gohebiaeth i'r Gweinidog Iechyd Vaughan Gething.

- m) **Canlwm Siapan** – adroddodd y Clerc y gwaith ymchwil ers y cyfarfod diwethaf, a'i fod wedi trafod yn fanwl gyda Rhys Owen o Barc Cenedlaethol Eryri. Roedd hefyd wedi paratoi poster ar gyfer ymgynghoriad gyda'r gymuned yn unol a chofnodion y cyfarfod diwerthaf. Roedd Rhys Owen wedi egluro y dylid cael arolwg o'r ardal yn ei chyfanrwydd, a bod posib iddynt gael wardeiniaid y Parc i gydweithio ar hyn. Trafodwyd y byddai hyn yn llawer gwell nag ymgynghoriad gyda'r gymuned, oherwydd roedd rhaid cael y darlun yn llawn. Ni fyddai pwrpas ei drin ee.yn ardal Dinas, os oedd problem yn uwch i fynny'r afon. Yn dilyn tafodaeth faith, penderfynwyd mae'r ffordd orau ymlaen oedd ysgrifennu at Rhys Owen yn gofyn am ei gymoth yn unol a beth a drafodwyd dros y ffon.
- n) **Asedau'r Cyngor** – adroddwyd fod y Clerc wedi danfon gwybodaeth oddiamgylch l bawb. Gofynnwyd l bawb adrodd yn ol erbyn y cyfarfod nesaf. O ran ail-wneud y meinciau, addawodd Cyng. Idris Jones wneud y gwaith, a diolchwyd yn fawr iawn iddo. Cytunwyd y byddai'r Cyngor Cymuned yn talu am y coed a'r paent ar eu cyfer.
- o) **Plac ar Bont Dolybont** – darllenwyd ymateb diweddaraf Liz Haynes o Gyngor Gwynedd dyddiedig 24 Mehefin. Cyfeiriwyd at yr hawliau pori ar y comin, a'r perygl l anifail fynd ar y bont. Roedd rhaid parhau l bwysu am gael rampiau a giat ar y bont.
- p) **Redbull** – adroddwyd y byddai'r digwyddiad ar benwythnos y 15fed o Fedi.
- q) **Ffordd Deunant** – adroddwyd am lythyr gan Adran Briffyrdd Cyngor Gwynedd yn dweud fod y ffordd ar y raglan waith.

3. Materion Cynllunio.

Nid oedd unrhyw faterion cynllunio i'w trafod.

4. Materion Cyllid.

Roedd un cais am arian i law, sef gan Bobath, Canolfan Therapi Plant Cymru. Cytunwyd ar gyfraniad o £25.

Cyflwynwyd y Cyfrifon a holl waith blwyddyn 2018 – 19 yn ffurfiol i sylw y Cyngor Cymuned. Roedd rhain eisoes wedi bod trwy law yr Archwilwyr Mewnol, sef Uned Archwilio Cyngor Gwynedd. Cyfeiriwyd at yr holl ddatganiadau a'r papurau atodol, ac roedd rhain yn awr yn gyflawn i'w cyflwyno i'r archwilwyr allanol.

Dangoswyd yr asesiad risg a oedd wedi ei baratoi eto eleni, ac fe'l ddsbarthwyd l sylw'r Cynghorwyr, a chytunwyd ar hyn. Yn yr un modd cytunwyd ar y rheolau sefydlog/ariannol eto eleni yr un fath a 2018-19.

Trafodwyd cofrestr buddiannau'r aelodau unigol o'r Cyngor ar gyfer 2019-20, a dosbarthwyd l'r Cynghorwyr. Nodwyd mor bwysig yw fod y rhain yn cael eu diweddarau fel bo'r angen.

Costau a chydabyddiaeth y Clerc - nodwyd e-bost gan Luned Fon Jones yn dweud fod pob dim yn iawn gyda'r hyn a gytunwyd, ar y dealltwriaeth fod hyn wedi cael cymeradwyaeth y Cyngor Cymuned, ac y byddai dogfenaeth cytundeb cyflogaeth.

5. Gohebiaeth.

- a) Cyfeiriwyd yn llawn at llythyr gan Gyngor Gwynedd ynglyn a Chynllun Partneriaethu Toiledau Cyhoeddus, a'n cytundeb i wneud partneriaeth gyda Cyngor Gwynedd am ddwy flynedd (2019 – 10 a 2020 – 21) gyda thoiledau Dinas. Byddai'r Clerc yn arwyddo ar ran y Cyngor Cymuned, sef cytunddeb i dalu £2000 y flwyddyn.
- b) Nodwyd e-bost yn cadarnhau fod Tywysog Cymru yn ymweld ag Eglwys Mallwyd ar ddydd Gwener y 5ed o Orffennaf, ac roedd gwahoddiad i unrhyw aelod o'r Cyngor Cymuned. Roedd angen enwau yn llawn i'r Clerc mor fuan phosib. Cadarnhaodd y Cadeirydd a'r Clerc eu bod wedi cael gwahoddiadau ysgrifenedig i fod yn bresennol ar ran y Cyngor Cymuned yn gynharach yn y dydd. Cafwyd cynnig gan y Cyng. Arfon Hughes na ddylem fel Cyngor Cymuned wneud dim ynglyn a'r digwyddiad yma, ond ni chafwyd eilydd. Yna cafwyd cynnig gan Cyng. Hedd Pugh a'i eilio gan Cyng. Catrin Jones y dylid rhoi rhyddid i bawb i fynd fel maent ei eisiau, a chytunwyd ar hyn.
- c) Nodwyd ddyddiadau cyfarfodydd cyswllt blynyddol rhwng Cyngorau Cymuned a'r Parc Cenedlaethol, sef Plas Tan y Bwlch, Maentwrog ar Nos Fawrth 1af Hydref a Neuadd Dyfi, Aberdyfi ar Nos Iau y 3ydd Hydref.

6. Unrhyw Fater arall.

- a) Cyfeiriwyd at y llwybr o'r gofgolofn i Minllyn, ac roedd angen ei lanhau o ddail ayyb. Hefyd ar waelod y llwybr, roedd coed yn tyfu trosodd i ffynnon gerllaw a oedd ar dir comin. Byddai'r Clerc yn cynnwys hyn ar restr materion i'r adran briffyrdd.
- b) Adroddwyd am achosion o faw cwn ar gomin Dolybont. Roedd angen ail-edrych ar yr ohebiaeth yn ymwneud ag addewidion biniau baw cwn, a pha mor aml y mae'r biniau yn cael eu gwagu. Addawodd Cyng. Hedd Pugh dorri y gwair yn ol yr arfer, ar adeg fyddai yn gyfleus iddo.
- c) Adroddwyd fod Arwyn Evans wedi torri'r gwair oddiamgylch y gofgolofn, a gofynnwyd i'r Clerc gysylltu ag ef i ddiolch iddo.
- d) Adroddodd y Cyng. Catrin Jones ei bod wedi derbyn llythyr gan Gyfreithiwr ar ran y Cyng John P Roberts, a gan fod y llythyr yn cyfeirio ati hi fel Cyngorydd Cymuned, roedd hi yn awyddus i'r mater gael ei nodi mewn cyfarfod o'r Cyngor Cymuned. Cadarnhaodd ei bod yn mynd i gael cyngor cyfreithiol ei hun ar y mater, ac yna adrodd yn ol y tro nesaf. Ar gynnig Cyng. Hedd Pugh a'i eilio gan Berwyn Harding mynegwyd barn glir na ddylid trafod y mater dan sylw, a chyfeiriwyd unwaith eto at benderfyniad y Cyngor Cymuned mewn cyfarfod arbennig o'r 22ain o Fawrth nad oedd y mater dan sylw yn rhan o orchwyl gwaith y Cyngor Cymuned.
- e) Adroddwyd fod angen torri gwair ar y ffordd i Gartheiniog, Aberangell - yn arbennig o Nanthir i fynny. Byddai'r Clerc yn cynnwys y mater yma er sylw yr Adran Briffyrdd.
- f) Mynegwyd ein dymuniadau gorau i Guto a Fflur, Braichllwyd ar eu priodas y penwythnos nesaf.

DYDDIAD CYFARFOD NESAF; NOS FERCHER 4ydd Medi yn Neuadd Dinas Mawddwy am 7.30 O'R GLOCH.